# PWYLLGOR TRWYDDEDU

# DYDD MAWRTH, 4 EBRILL 2023

**PRESENNOL** Cynghorydd J.M. Charles (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | |
|---|---|---|
| P. Cooper | H. Jones | B.D.J. Phillips |

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| S.A. Curry | A. Evans | W.T. Evans | J.K. Howell |
| D. Jones | M.J.A. Lewis | K. Madge | D.E. Williams |

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
S. Martin, Solicitor
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
A. Eynon, Prif Gyfieithydd;
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
J. Power, Uwch Swyddog Trwyddedu
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd,
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aelodau

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP 10.00 - 11.00 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd L. Roberts.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

## 3. COFNODION - 28AIN CHWEFROR, 2023

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2023 yn gofnod cywir.**

## 4. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 5. MR KENNETH JOHN JOSEPH DUXBERRY CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Kenneth John Joseph Duxberry o 18 Cwrt y Gloch, Peniel, Caerfyrddin am adnewyddu ei drwydded yrru ddeuol ar gyfer cerbyd hacni/hurio preifat.

Dywedodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu nad oedd Mr Duxberry yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod ond ei fod wedi gofyn i'r Pwyllgor ystyried ei achos yn ei absenoldeb.

Hysbyswyd y Pwyllgor o'r materion oedd wedi codi mewn perthynas â thrwydded Mr Duxberry.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Duxberry yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu cais Mr Kenneth John Joseph Duxberry am adnewyddu Trwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacni/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

Rheswm
Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, yr oedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

## 6. MR PETER CYRIL PEARCE CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Peter Cyril Pearce o 43 Orchard Park, Talacharn am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacni/Hurio Preifat.

Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wybod i'r Pwyllgor am y materion a oedd wedi codi mewn perthynas â'r cais.

Yna gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau i Mr Pearce ynghylch y cais a'r materion a godwyd gan yr Uwch Swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Pearce yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Ar hynny

**PENDERFYNODD y Pwyllgor YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD caniatáu cais Mr Peter Cyril Pearce am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacni/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

Rheswm
Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, yr oedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

## 7. MR JAMIE STEPHEN SMITH CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Nododd y Pwyllgor fod yr eitem hon wedi ei thynnu oddi ar yr agenda.

## 8. MR STEVE ANTONY WILLIAMS DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mr Steve Antony Williams o 110 Stryd Fawr, Rhydaman yn meddu ar drwydded yrru ddeuol ar gyfer cerbyd hacni/hurio preifat gyda'r Awdurdod hwn.

Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wybod i aelodau'r Pwyllgor am y materion a oedd wedi codi mewn perthynas â'i drwydded.

Yna gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau i Mr Williams ynghylch y cais a'r materion a godwyd gan yr Uwch Swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod Mr Williams yn cael rhybudd terfynol ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Ar hynny:

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, roi rhybudd terfynol i Mr Steve Antony Williams ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

Rheswm

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, yr oedd y Pwyllgor yn fodlon bod y gyrrwr yn parhau i fod yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

**CHAIR** **DATE**

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council